

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Denture Design Centre, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 28 Mehefin 2022

Dyddiad cyhoeddi: 29 Medi 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac rydym yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu a defnyddio gwasanaethau a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom
2. Crynodeb o'r arolygiad
3. Yr hyn a ganfuom
 - Ansawdd profiad y claf
 - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
 - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth
4. Y camau nesaf

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Atodiad C - Cynllun gwella

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Denture Design Centre, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 28 Mehefin 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Sylwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau o'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd profiad y claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Denture Design Centre wedi ymrwymo i ddarparu profiad cadarnhaol i'r cleifion. Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn dda iawn.

Gwelsom fod newidiadau wedi'u gwneud i'r amgylchedd a darpariaeth y gwasanaeth, ar sail canllawiau'r llywodraeth.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Arwyddion a thaflenni gwybodaeth dwyieithog i gleifion
- Nyrsys deintyddol yn gwisgo bathodynau i ddangos eu bod yn siarad Cymraeg.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom ofal cleifion yn cael ei ddarparu mewn modd gofalgarn a phroffesiynol.

Gofal diogel ac effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod yr adeilad mewn cyflwr da, yn fewnol ac yn allanol. Roedd y clinig yn cael ei gadw'n lân ac yn ddaclus, ac roedd y lefelau glendid a welwyd yn cael eu hadlewyrchu yn yr holiaduron gan gleifion a dderbyniwyd.

Gwelsom dystiolaeth bod asesiad risg ar gyfer diogelwch tân ar waith, ond nad oedd hwn yn gyfredol. Gwnaethom hysbysu'r staff bod angen adolygu hyn ar unwaith i'w ddiweddarau.

Roedd y cofnodion cleifion y gwnaethom eu hadolygu yn cael eu cadw i safon dda. Roedd y nodiadau'n glir, yn ddarllenadwy, ac o ansawdd da ar y cyfan, gyda digon o wybodaeth yn cael ei chofnodi am y claf a'i driniaeth.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid cwblhau asesiad risg amgylcheddol
- Dylid adolygu yr asesiad risg ar gyfer diogelwch tân.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Mae'r lleoliad yn lân ac yn daclus ac yn cael ei gadw mewn cyflwr da.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom grŵp o staff a oedd yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac a oedd yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion.

Roedd gan y practis ystod o bolisiau a gweithdrefnau ar waith, ac roedd yn ymddangos bod pob un ohonynt yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Gwelsom gofnodion hyfforddiant clir a chyfredol ar gyfer staff ar system ar-lein y clinig. Fodd bynnag, mae angen rhai gwelliannau pellach.

Roedd cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal. Mae cofnodion yn cael eu cofnodi a'u cadw ar ffeil.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai rheolwr y practis a'r unigolyn cyfrifol lunio adroddiad rheoliad 16.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom dystiolaeth o waith llywodraethu da iawn ac agweddau proffesiynol ar y cyfan gan y staff
- Gwelsom dîm o staff sy'n gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd.

Rhoddir manylion y pryderon am ddiogelwch y cleifion a'r gwelliannau uniongyrchol a'r camau unioni sydd eu hangen yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a ganfuom

Ansawdd profiad y claf

Adborth cleifion

Cyn ein harolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 12 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd mwyafrif yr holiaduron a gwblhawyd gan gleifion a oedd wedi bod yn glaf yn y practis am lai na blwyddyn.

Roedd rhai o'r sylwadau a ddarparwyd gan y cleifion ar yr holiaduron yn cynnwys:

"Dwi ddim yn credu y gallan nhw wella o gwbl gan fod y gwasanaeth yn dda iawn"

"Bodlon iawn â'r gwasanaeth"

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom staff a chleifion yn gwisgo gorchuddion wyneb tra yn y practis. Roedd hylif diheintio dwylo ar gael wrth y dderbynfa a gwelsom staff hefyd yn gwirio a oedd cleifion yn dangos symptomau COVID-19 cyn mynd i mewn i'r practis.

Roedd yn amlwg bod y practis mewn cyflwr da, yn fewnol ac yn allanol. Hefyd, gwelsom lanhau cyffredinol yn y mannau cymunol a bod nhw'n glanhau'r ddeintyddfa rhwng pob claf.

Dywedodd cleifion wrthym fod y tîm staff yn Denture Design Centre wedi trafod y camau sydd angen arnynt i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gwelsom fod gwybodaeth i gleifion ar gael yn y man aros. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am weithdrefn gwyno'r practis a manylion cyswllt AGIC. Roedd rhestr brisiau'r practis wedi'i harddangos mewn taflenni ar y dderbynfa.

Roedd enw'r practis i'w weld yn glir o'r tu allan ac roedd yr oriau agor a rhif ffôn brys hefyd wedi'u harddangos.

Gofal ag urddas

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym mai Saesneg oedd eu dewis iaith a bod gwybodaeth am ofal iechyd ar gael iddynt yn yr iaith honno.

Gwnaethom ofyn i'r cleifion a oeddent yn cael cynnig y cyfle i siarad Cymraeg a dywedodd saith o'r 12 claf wrthym nad oeddent wedi cael cynnig y cyfle hwn. Roedd rheolwr y practis yn cydnabod bod angen gwella'r arfer hon ac fe wnaethom argymhell rhoi bathodyn i'r nyrs ddeintyddol i ddangos ei bod yn siarad Cymraeg. Gwnaethom hefyd argymhell bod y practis yn arddangos arwyddion dwyieithog a gwybodaeth ddwyieithog i gleifion.

Gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn cael eu trin mewn modd urddasol a pharchus, a chlywsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol. Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis.

Dywedwyd wrthym y byddai'r staff yn cynnal sgysiau preifat â chleifion yn y deintyddfeydd i ffwrdd o'r dderbynfa / man aros. Hefyd, bydd staff yn symud i ystafell breifat wrth siarad â chleifion ar y ffôn er mwyn cadw cyfrinachedd.

Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd yr arolwg ar-lein wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi cymryd cymaint o ran ag yr oeddent yn dymuno mewn penderfyniadau ynglŷn â'u triniaeth. Dywedodd pob claf fod y tîm deintyddol wedi eu helpu i ddeall yr holl opsiynau sydd ar gael pan oedd angen triniaeth arnynt.

Gwelsom ystod o bosteri a thaflenni gwybodaeth yn y man aros. Roedd y rhain yn cynnwys gwybodaeth am y weithdrefn gwyno a'r polisi diogelu, gan gynnwys gwybodaeth am y tîm diogelu lleol. Hefyd, gwelsom daflenni i gleifion yn amlinellu'r rhestr brisiau ar gyfer y practis.

Gofal amserol

Mynediad amserol

Dywedodd rheolwr y practis wrthym nad ydynt erioed wedi cael problemau gydag oedi o ran apwyntiad oherwydd y niferoedd isel o gleifion bob dydd.

Gwnaethom ofyn i'r cleifion a oeddent yn teimlo ei bod yn hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt ac roedd yr holl gleifion yn cytuno â hyn.

Ar adeg yr arolygiad, gwelsom rai cyfyngiadau oherwydd COVID-19 yn dal i fod ar waith, a dim ond y cleifion ag apwyntiadau a drefnwyd ymlaen llaw oedd yn dod i mewn i'r practis. Dywedodd y staff wrthym fod pob apwyntiad yn cael ei drefnu dros y ffôn a gwelsom gleifion a staff yn gwisgo gorchuddion wyneb.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaethom gynnal adolygiad o gofnodion cleifion, gan edrych yn benodol ar gydsyniad, cynllunio triniaeth, cofnodion meddygol a'r driniaeth a roddwyd. Roedd pob un yn drylwyr ac yn gyfredol. Cadarnhaodd 11 allan o'r 12 o gleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym nad yw wedi cynnal archwiliad cadw cofnodion cleifion eto. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol bod yr archwiliad hwn yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosibl.

Hawliau pobl

Gwnaethom nodi bod gan y practis bolisi cydraddoldeb a hawliau dynol ar waith, ynghyd â nifer o bolisiau ategol eraill i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y practis. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn deg a bod hyfforddiant ar gael iddynt.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gweithio'n galed i fod yn gynhwysol i bob claf. Dywedwyd wrthym fod yr addasiadau perthnasol wedi'u gwneud yn y gorffennol ar gyfer cleifion ag anawsterau clyw a gellir defnyddio ramp y gellir ei symud i ganiatáu mynediad i gadeiriau olwyn. Nid oes mynediad i gadeiriau olwyn yn nhoiled y claf, ond dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael gwybod am hyn cyn iddynt fynychu eu hapwyntiad.

Gwranddo a dysgu o adborth

Roedd y broses gwyno wedi'i harddangos yn y man aros. Roedd yr wybodaeth am gwynion yn cynnwys y broses y mae angen ei dilyn, amserlenni ar gyfer ymateb, enw'r aelod o staff sy'n gyfrifol am ymdrin â chwynion, a manylion AGIC.

Gwelsom y cofnod lle byddai cwynion yn cael eu cofnodi, ond dywedodd y staff wrthym nad oes unrhyw gwynion wedi'u gwneud hyd yn hyn. Mae gan y practis flwch awgrymiadau ar gyfer cleifion yn y dderbynfa, ond yn anaml y caiff hwn ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Dywedodd rheolwr y practis wrthym am gynlluniau i ddatblygu taflenni gwybodaeth i annog y cleifion i ddefnyddio'r blwch awgrymiadau.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, roedd yr adeilad i'w weld mewn cyflwr da, y tu mewn a'r tu allan. Roedd mynediad i'r adeilad yn ddi-rwystr ac yn ei gwneud yn bosibl i unrhyw un â chymhorthydd symudedd / cadair wthio fynd i mewn i'r adeilad. Yn fewnol, roedd y clinig yn lân ac yn dactlus ac mewn cyflwr da. Roedd y man aros o faint priodol ar gyfer nifer y cleifion a welwyd bob dydd a gwelsom fod y deintyddfeydd a'r manau cymunol yn cael eu glanhau'n rheolaidd trwy gydol y dydd.

Ni fynegodd cleifion unrhyw bryderon ynghylch glendid Denture Care Centre a mynegodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur y farn bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Gwelsom doiledau'r staff a'r cleifion, a chegin y staff. Roedd y ddau yn lân ac yn dactlus, a gwelsom y ddau yn cael eu glanhau'n drylwyr yn ystod ein hymweliad.

Ni nodwyd unrhyw faterion ynglŷn â'r gwres, y goleuadau neu'r awyru.

Gwelsom fod offer diogelwch tân ar gael yn y clinig ac roeddent wedi cael eu gwasanaethu'n ddiweddar. Ar adeg yr arolygiad, roedd gan y lleoliad asesiad risg ar gyfer diogelwch tân ar waith, ond nid oedd yn gyfredol. Gwnaethom hysbysu rheolwr y practis y byddai angen diweddarau'r asesiad risg cyn gynted â phosibl. Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant diogelwch tân i'r staff ac roedd arwyddion allanfeydd tân wedi'u harddangos yn glir yn y clinig. Dywedodd rheolwr y practis wrthym hefyd fod ymarferion tân yn cael eu cynnal gyda staff y practis.

Roedd poster "Ei ddal, Ei roi yn y bin, Ei ladd" yn ogystal â thystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwr wedi'u harddangos.

Fe'n hysbyswyd gan reolwr y practis nad oes asesiad risg amgylcheddol wedi'i gynnal yn y clinig eto. Mae angen cwblhau hwn a'i ddiweddarau'n rheolaidd i sicrhau bod y practis yn parhau i fod yn addas i'r diben.

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom fod gan y practis nifer o bolisiau ar waith ynghylch gweithdrefnau atal a rheoli heintiau. Roedd y rhain yn cynnwys hylendid dwylo, a'r trefniadau rheoli heintiau ar gyfer y clinig.

Canfuom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer trin a gwaredu gwastraff. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod gwastraff clinigol yn cael ei storio a'i wahanu yn ddiogel ac yn briodol.

Gwelsom dystysgrifau ar y system myComply yn dangos bod y staff clinigol wedi derbyn hyfforddiant rheoli heintiau.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod gan y practis weithdrefnau priodol ar waith i ymdrin ag achosion brys ac roedd systemau ar waith i ddangos tystiolaeth o wiriadau o offer brys yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Ni chadwyd unrhyw feddyginiaethau ar y safle. Mae hyn yn cynnwys meddyginiaeth frys.

Rheolwr y practis yw'r swyddog cymorth cyntaf, ac roedd ganddo hyfforddiant cyfredol. Gwelsom fod pecyn cymorth cyntaf ar gael yn cynnwys eitemau priodol a chyfredol.

Er i ni weld tystiolaeth o hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd i staff, nid oedd hwn yn gyfredol. Rydym yn gofyn i staff gwblhau hyfforddiant gloywi dadebru cardio-pwlmonaidd cyn gynted â phosibl i sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn.

Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl

Gwelsom fod yr holl staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ddiogelu oedolion a phlant. Fe'n hysbyswyd mai rheolwr y practis yw'r arweinydd diogelu a'i fod wedi cwblhau hyfforddiant diogelu Lefel 3.

Gwelsom dystiolaeth fod polisïau a gweithdrefnau diogelu priodol ar waith, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol. Roedd y weithdrefn ddiogelu wedi'i harddangos yn y man aros.

Gwelsom fod gan y staff wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn eu ffeiliau a gynhaliwyd cyn eu cyflogaeth. Fodd bynnag, roedd gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gofnodwyd ar gyfer y nyrs ddeintyddol yn briodol i'w man cyflogaeth flaenorol. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r aelod hwn o staff gael gwiriad a thystysgrif newydd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar ffeil sy'n adlewyrchu ei fan cyflogaeth bresennol.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod y cyfarpar clinigol a ddefnyddir yn y clinig yn ddiogel ac yn addas i'r diben. Gwelsom dystiolaeth yn ffeiliau hyfforddi'r staff fod yr holl unigolion perthnasol wedi derbyn hyfforddiant i sicrhau defnydd diogel o offer.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod gan y practis drefniadau ar waith ar gyfer derbyn, asesu, gwneud diagnosis a thrin y cleifion. Roedd y manylion wedi'u dogfennu yn ei ddatganiad o ddiben ac mewn polisïau a gweithdrefnau.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Gwelsom fod archwiliadau wedi'u cwblhau a oedd yn cynnwys archwiliadau ynghylch rheoli heintiau ac anabledd. Fodd bynnag, nid oedd y practis yn cynnal archwiliadau cadw cofnodion ar hyn o bryd. Gwnaethom hysbysu rheolwr y practis bod angen gweithredu hyn a'i adolygu'n flynyddol.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym ei fod yn bwriadu cynnal arfarniadau staff cyn gynted â phosibl.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y clinig bolisi diogelu data a chyfrinachedd staff ar waith. Canfuom fod cofnodion cleifion cyfredol yn cael eu storio'n electronig ac yn ddiogel.

Cadw cofnodion

Daeth adolygiad trylwyr o gofnodion cleifion i'r casgliad bod y rhain yn cael eu cadw i safon dda. Roedd y nodiadau yn glir, yn ddarllenadwy, ac o ansawdd da.

O'r cofnodion y gwnaethom eu hadolygu, gwelsom fod ganddynt ddigon o wybodaeth am hanes meddygol y cleifion, gwybodaeth am driniaeth, a chydsyniad.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae gan y technegydd deintyddol clinigol (perchennog y practis) gyfrifoldeb cyffredinol am y gwaith o reoli'r clinig. Mae'n cael ei gefnogi gan nyrs ddeintyddol a dau aelod ychwanegol o staff sydd ond yn gweithio yn y labordy dannedd gosod.

Gwelsom y tîm staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd a gwelwyd tystiolaeth o hyn yn eu perthynas a'u rhyngweithio â'i gilydd a'u cleifion ar ddiwrnod yr arolygiad.

Gwnaethom adolygu'r datganiad o ddiben a oedd yn cynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Fodd bynnag, nid oedd yr wybodaeth oedd wedi'i chynnwys yn y ddogfen ynghylch enwau'r staff sy'n gweithio yn y clinig ar hyn o bryd yn gyfredol. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i reolwr y practis adolygu'r ddogfen a diweddarau'r wybodaeth berthnasol cyn gynted â phosibl.

Gwnaethom hefyd adolygu'r daflen wybodaeth i gleifion. Er ei fod yn cynnwys yr wybodaeth berthnasol a chyfredol, gwnaethom ofyn i reolwr y practis sicrhau bod dyddiadau adolygu'n cael eu hychwanegu at y ddogfen.

Gwnaethom adolygu polisiau a gweithdrefnau'r lleoliad, ac roedd pob un ohonynt yn gyfredol ac wedi'u hadolygu'n ddiweddar. Diolch i'r system myComply, gwelsom dystiolaeth fod y staff wedi derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y polisiau a'r gweithdrefnau, a dywedwyd wrthym fod staff yn cael gwybod am unrhyw ddiweddariadau ynghylch y polisiau a'r gweithdrefnau.

Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol yn gyffredinol am sicrhau bod unrhyw hysbysiadau, gan gynnwys unrhyw hysbysiadau i AGIC, yn cael eu cyflwyno yn achos unrhyw anafiadau difrifol.

Gwelsom fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Mae cofnodion o gyfarfodydd yn cael eu cofnodi a'u cadw'n electronig.

Gwelsom nad oes gan y practis adroddiad Rheoliad 16 ar waith ar hyn o bryd. Gwnaethom hysbysu rheolwr y practis ei fod yn ofynnol bod hwn yn cael ei gynhyrchu cyn gynted â phosibl, yn unol â Rheoliad 16 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Y Gweithlu

Dywedwyd wrthym am y broses a ddefnyddir i recriwtio staff newydd a bod polisiâu ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflogi a sefydlu staff. Dywedwyd wrthym nad oedd staff asiantaeth erioed wedi cael eu defnyddio yn y clinig.

Cedwir ffeiliau staff, a gwelsom eu bod yn cynnwys tystiolaeth o'u cofrestriad gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, eu contract cyflogaeth, eu himiwnedd yn erbyn hepatitis B, a'u gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod gan yr holl staff yswiriant indemniad proffesiynol ar waith.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r polisi chwythu'r chwiban a dywedon nhw wrthym eu bod yn hyderus i godi unrhyw faterion neu bryderon ynghylch y gwaith o ddarparu gofal i'r cleifion, naill ai'n uniongyrchol ag aelod arall o staff neu â chorff priodol arall os oedd angen.

Roedd gan y staff yr holl hyfforddiant diweddaraf ac eithrio dadebru cardio-pwlmonaidd. Gwnaethom hysbysu'r staff bod angen trefnu hyn cyn gynted â phosibl.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon dybryd yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym am i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Denture Design Centre

Dyddiad yr arolygiad: 28/6/2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i reolwr y practis adolygu'r asesiad risg ar gyfer diogelwch tân i sicrhau ei fod yn gyfredol	Rheoliad 22 (4) (e) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Safonau Iechyd a Gofal - 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae'r asesiad risg ar gyfer tân wedi'i gynnal a'i ddiweddarau.	Matthew Thomas <u>Wedi'i wneud 4/7/2022</u>

Rhaid i reolwr y practis lunio adroddiad Rheoliad 16 ar gyfer y lleoliad cyn gynted â phosibl	Rheoliad 16 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Ymchwilio'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer adroddiad Rheoliad 16. Asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, yn fwyaf tebygol trwy archwiliad	Matthew Thomas	31/8/2022
Mae angen i asesiad risg amgylcheddol fod ar waith a'i ddiweddarau'n rheolaidd i sicrhau bod y practis yn addas at y diben	Rheoliad 16(1)(b) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Safonau lechyd a Gofal - 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Ymchwilio'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer adroddiad Rheoliad 16 (1)(b) Asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, yn fwyaf tebygol drwy asesiad risg amgylcheddol	Matthew Thomas	31/8/2022
Rhaid i bob aelod o staff fynychu hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd yn bersonol cyn gynted â phosibl i sicrhau cydymffurfedd lawn â'r hyfforddiant gorfodol	Rheoliad 17 (1) (a) a 22 (4)(c) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae lleoedd wedi'u harchebu ar gyfer yr holl staff i fynychu hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd.	Matthew Thomas	31/8/2022

	Safon 7.1: Y gweithlu o'r Safonau lechyd a Gofal			
Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i reolwr y practis gynnal archwiliad gwybodaeth cleifion ar gyfer y lleoliad	Rheoliad 16 (1) (a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Safonau lechyd a Gofal - 3.3 Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi a 3.5 Cadw cofnodion	Matthew Thomas, ei hun, fydd yn cynnal archwiliad gwybodaeth cleifion ar gyfer y lleoliad	Matthew Thomas	9/9/2022
Er bod gan y nyrs ddeintyddol dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, nid yw hon yn benodol i'r lleoliad ar hyn o bryd, ond o'i swydd flaenorol. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol bod gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd newydd yn cael ei wneud	Rheoliad 18 (1) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Safon 7.1: Y gweithlu o'r	Bydd gwiriad a thystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal a'u caffael	Matthew Thomas	31/8/2022

ar gyfer yr aelod hwn o staff cyn gynted â phosibl	Safonau lechyd a Gofal			
Rydym yn ei gwneud yn ofynnol bod i'r lleoliad gynnig gwasanaeth dwyieithog i'w gleifion, cyn belled ag y gallant. Mae hyn yn cynnwys cynhyrchu gwybodaeth ddwyieithog i gleifion a chael y bathodyn perthnasol ar gyfer y nyrs ddeintyddol i ddangos ei bod yn siaradwr Cymraeg.	Rheoliad 13 (1)(a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Safonau lechyd a Gofal - 3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	Bydd bathodyn ar gael i'r nyrs ddeintyddol (sy'n siarad Cymraeg) i'w gwisgo. Bydd neges peiriant ateb yn cael ei recordio yn y Gymraeg.	Matthew Thomas	9/9/2022

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd o'r gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Matthew Thomas

Swydd: Technegydd deintyddol clinigol

Dyddiad: 14.8.2022